


## Gair gan Stuart, Rheithor Eglwys Sant Gwyddelan

Fe ddaw mis Medi a'i naws o felancoli. Mae ein cathod i lawr i un a'r plant i ddim (er eu bod wedi bod y tu hwnt i'r disgrifiad yna ers amser maith). Serch hynny fe wnaif y daith hir i ddanfôn nwyddau angerheidiol i dy myfyrwyr yng Nghaerdydd. Mae fy meddwl yn crwydro at y llyfr "Nid ar yr A470". Er bod yr haf yn teimlo fel pe bae wedi digwydd wythnosau yn ôl y mae'r tywydd yn ymddangos fel y gallai altro ar gyfer Haf Bach Mihangel eitha braf. Yn hen eglwys Mihangel Sant y byddwn ar y 29ain o Fedi am 6pm ar gyfer y gwasanaeth, yna cân a ffidil i godi'r ysbryd gan yr arddechog Cass Meurig. Y mae'r hen dymhorau Celtaidd yn parhau i ddal eu tir fel y gallwn gael y ddawns olaf o gwmp y dail yn un go liwgar. Y mae'r coed yn arafu fel petae i gael eu cwsg gaeafol, gan wybod y byddant yn cael deffroad unwaith eto pan fydd y ddaear yn cynhesu. Y mae hyn wedi peri i ni gael ystyr ddeuol yn ystod ein bywydau. Y mae 1.5 gradd yn ymddangos yn fychan, ond eto yn hollbwysig a'r coed allasai eto fod yn waredigaeth i ni. Gan eu gwerthfawrogi a meddwl mai y nhw, a'u gwell hirhoedledd, yn hytrach na'n hoesoedd byr ni sydd drechaf.

Daw hyn â ni at Dymor y Saint ac Eneidiau. Y mae'r prosiect ym Mryn y Bedd yn ein hannog i gofio y rhai y bywydau a gollwyd. Rydym yn well am gofio na pharatoi. (Y mae cynlluniau ar gyfer Caffi Colled, er mwyn siarad am farwolaeth a'r meirw a'r rhai sy'n marw). Gwers y dylsem fod wedi ei dysgu erbyn hyn o wybod bod bywyd yn gylch cyflawn. Y mae'r flwyddyn Geltaidd yn nodi yn y dechrau – Marwolaeth, yna mae yn dod i atgyfodiad gorfoleddus yn y Gwanwyn. Ni all ddigwydd hebdo. Ar y Sul y 5ed o Dachwedd am 11am byddwn yn ymgasglu yn Eglwys Gwyddelan i goffau y rhai sydd wedi rhannu eu bywydau a ni a'u marwolaeth. Byddwn yn casglu enwau fel y bydd y dail yn pydru - symbol o ddadeni fel y dywedodd un bardd yn y weddi "Let this dark grief flower."



The shadows shine  
Darkly behind all they were  
An imprint of their lives upon our own  
Outlines remain yet nothing inhabits the space  
Memories on an ink pad never refreshed  
Become background noise to the daily clamour  
Threads all but gone yet woven still  
Half remembered conversations drift  
Waking dreams of lives entangled till  
Fading echo's draw away  
Our past theirs forever  
What is gone. Is gone. No more.